**T:** (01495) **DX:** 43956 Ebbw Vale

**F:** (01495) 355470 **E:** 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Our Ref./Ein Cyf.**
**Your Ref./Eich Cyf.** SR/JW/LMM
**Contact:/Cysylltwch â:** Joanne Watts
**Date:/ Dyddiad:** 5 Medi 2023

Annwyl Ymgynghorai,

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**

Cyfeiriaf at yr Hysbysiad Statudol dyddiedig 26 Mehefin 2023 ("yr Hysbysiad Statudol") a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ("y Cyngor") sy'n rhoi manylion y cynnig dilynol:

Bydd y cynigion yn cael eu gweithredu mewn dau gam a byddant yn arwain at gynnydd yn y capasiti ar gyfer Canolfannau Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol ("ADY") ac Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ("ASD") ar draws y Fwrdeistref Sirol yn yr ysgolion cysylltiedig. Bydd y cynnig i gynyddu lleoedd ASD ac ADY o 61 i 86 ar draws ysgolion cynradd a chynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd o 62 i 80 lle yng Nghyfnod 1 (yn cynnwys 15 lle cyfrwng Cymraeg). Ymhellach mae'r cynigion yn cynnwys y potensial i gynyddu lleoedd gan 40 arall yng Nghyfnod 2 (yn cynnwys darpariaeth ysgol Ffydd). Daw hyn i rym mewn camau o fis Medi 2023 dros y 5 mlynedd nesaf.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fydd yr awdurdod derbyn drwy banel ADY y Cyngor. Bydd y Canolfannau Adnoddau ADY newydd ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol (3-16).

**Cyfnod 1**

| **Ysgol** | **Newid** | **Dyddiad Gweithredu a Gynlluniwyd** |
|---|---|---|
| Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Cyfnod Uwchradd | Sefydlu 6 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau ar gyfer ASD/ADY | Medi 2023 |
| Ysgol Gyfun Tredegar | Sefydlu 6 a 8 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau ar gyfer ASD/ADY | Medi 2023 |
| Ysgol Gynradd Sofrydd | Sefydlu 10 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau ar gyfer ASD/ADY | Medi 2024 neu Medi 2025 |
| Ysgol Gymraeg Bro Helyg | Sefydlu 10 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau ar gyfer ASD/ADY | Medi 2024 |

**Cyfnod 2**

| **Ysgol** | **Newid** | **Dyddiad Gweithredu a Gynlluniwyd** |
|---|---|---|
| Ysgol Sefydliadol Brynmawr | Sefydlu 10 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau | 2025 - 2029 |

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn cyfathrebu gyda chi yn eich dewis iaith, dim ond i chi rhoi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The Council welcomes correspondence in Welsh and English and we will communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer ASD/ADY | |
| Ysgol Gynradd Cwm | Sefydlu 10 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau ar gyfer ASD/ADY | 2025 - 2029 |
| Ysgol Gynradd Seiliedig ar Ffydd ym Mlaenau Gwent (i'w benderfynu) | Sefydlu 10 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau ar gyfer ASD/ADY | 2025 - 2029 |
| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri, Heol Roseheyworth, Campws Roseheyworth | Sefydlu 10 lle wedi'u neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol fel Sylfaen Adnoddau ar gyfer ASD/ADY | 2025 - 2029 |

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod Hysbysiad Statudol 28-diwrnod.

Cyhoeddwyd yr Adran Gwrthwynebiadau yn rhoi manylion canlyniad cyfnod yr Hysbysiad Statudol ar wefan y Cyngor, yn unol ag adran 49 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”) ac adran 5.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Fersiwn 2 (“y Cod”).

Dydd Llun 4ydd Medi 2023, yn unol â’r gofynion a nodir o fewn Deddf 2013 a’r Cod cysylltiedig, ystyriodd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor y cynigion yn unol â chanlyniad cyfnod yr Hysbysiad Statudol, gan nodi nad oedd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i’r cynnig. Felly, penderfynodd y Cabinet y dylid gweithredu'r cynnig a nodir yn yr Hysbysiad Statudol.

**ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD**
Mae copi o’r Adroddiad Gwrthwynebiad yng nghyswllt yr Hysbysiad Statudol ar gael ar wefan y Cyngor drwy’r ddolen ddilynol: Cynigion i wella darpariaeth a meithrin gallu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol | Blaenau Gwent CBC (blaenau-gwent.gov.uk) ac mae copïau caled hefyd ar gael gan y Cyngor drwy wneud cais.

Dymuniadau gorau,



**Dr Luisa Munro-Morris**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar gyfer Addysg**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**